Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tan yr Allt Lodge Ltd**

**Tan yr Allt Lodge**
**14 Tyle Alltwen**
**Pontardawe**
**Abertawe**
**SA8 3AB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

25 Chwefror 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Ynglŷn â Tan yr Allt Lodge Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion â gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Tan yr Allt Lodge Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 26 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 10 Rhagfyr 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Gwasanaeth a adeiladwyd at y diben wedi'i leoli yn ardal breswyl ym Mhontardawe yw Tan yr Allt Lodge. Y mae oddi ar y brif ffordd a chyfagos â gwasanaethau eraill a weithredir gan y darparwr. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys tair ardal hunangynwysiedig ar wahân. Mae'r amgylchedd yn addas iawn i bobl ag anghenion cymhleth oherwydd ei fod yn hygyrch, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, ac yn ddiogel. Gwnaeth pobl a pherthnasoedd roi adborth cadarnhaol i ni am y gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae yna fesurau rheoli heintiau COVID-19 cadarn a thrylwyr ar waith.

Mae pobl yn derbyn gofal da a chaiff eu hanghenion gofal a chymorth eu diwallu'n llawn gan staff ymrwymedig a chymhellol. Effeithiwyd ar y gwasanaeth gan COVID-19. Mae staff gofal a rheolwyr wedi gweithio'n galed i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu'n llawn ac mae gwaith recriwtio'n parhau gyda staff gofal newydd wedi cael eu penodi'n ddiweddar. Mae yna gydlynydd gweithgareddau dynodedig ac amserlen o weithgareddau cynlluniedig y gall pobl ddewis gymryd rhan ynddynt. Mae gweithgareddau cymunedol yn cynyddu wrth i gyfyngiadau COVID-19 ddod i ben. Mae'r gwasanaeth wedi'i reoli'n dda a'i gefnogi gan drefniadau llywodraethu da. Mae angen gwelliannau yn y ffordd mae rhai risgiau cymorth yn cael eu monitro a'u nodi. Mae'r tîm rheoli yn mynd i'r afael â hyn.

## Llesiant

Mae pobl yn cael eu cefnogi'n dda yn Tan yr Allt Lodge ac yn derbyn gofal da lle caiff eu hiechyd a'u llesiant eu hyrwyddo a'u monitro. Mae staff gofal yn trin pobl ag urddas a pharch ac maent yn ymrwymedig i'w rolau. Mae'r rheolwyr a'r staff gofal wedi gweithio'n galed drwy gyfnod anodd a heriol ac maent yn cefnogi ei gilydd yn dda. Oherwydd y pandemig, effeithiwyd ar y lefelau staffio. Er gwaethaf hyn, mae'r gwasanaeth wedi gweithio'n galed i sicrhau y diwellir anghenion pobl yn llawn. Mae yna ymgyrchoedd recriwtio parhaus ac mae staff gofal newydd yn dechrau yn y gwaith yn fuan. Mae cyfathrebu â'r gwasanaeth ac yn allanol yn dda. Gwnaeth perthnasau y siaradwyd â hwy gadarnhau hyn. Caiff rheoli heintiau ei reoli'n dda ac mae yna weithdrefnau iechyd a diogelwch clir ar waith i arwain staff. Gwnaethom siarad â phobl yn ystod yr arolygiad a gwnaethant i gyd gadarnhau eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth ac yn cyd-dynnu'n dda â'r staff. Caiff meddyginiaeth ei rheoli'n dda a'i storio'n ddiogel yn y gwasanaeth.

Mae'r dogfennau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn, maent o safon, ac maent yn darparu arweiniad clir i staff ar nodau a dyheadau pobl. Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg yn hysbysu staff yn dda ac yn cael eu hadolygu pan fydd amgylchiadau'n newid. Mae'r cynlluniau gofal yn hyrwyddo annibyniaeth ond hefyd yn rhoi gwybod i staff am sut mae modd lleihau risgiau a'u rheoli'n ddiogel. Fodd bynnag, nid yw dogfennau a chofnodion gofal a chymorth yn gyson bob tro ac mae angen eu gwella mewn perthynas â rheoli risg a chanlyniadau. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwyr yn ymwybodol o hyn ac yn rhoi camau gweithredu ar waith i wella hyn.

Mae'r amgylchedd lle mae pobl yn byw yn ddiogel, yn lân ac yn gartrefol. Mae trefniadau cynnal a chadw da ar waith yn gyson. Rhoddir blaenoriaeth i iechyd a diogelwch gydag archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal mewn meysydd megis diogelwch tân a thymereddau dŵr. Mae'r gwasanaeth yn daclus ac nid oes unrhyw beryglon. Mae yna gynlluniau i ddiweddaru'r ardd a'i gwneud yn fwy hygyrch.  Mae cyfarpar symudedd yn gweithio'n dda. Mae pobl yn hoffi byw yn y gwasanaeth ac maent yn cyfeirio'n gadarnhaol at yr amgylchedd.

Mae'r tîm rheoli'n cynnal goruchwyliaeth dda ac maent yn hynod weladwy yn y gwasanaeth. Mae'r uwch-dîm wedi'i reoli'n dda ac yn gymhellol ac yn cyfathrebu'n dda yn fewnol ac yn allanol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn hygyrch, yn hawdd mynd ato, ac yn cynnal goruchwyliaeth weithredol dda. Mae monitro sicrhau ansawdd a gwiriadau iechyd a diogelwch yn gadarn ac yn cynnwys adroddiadau chwarterol a chwe misol manwl. Mae trefniadau goruchwylio ac arfarnu staff ar waith ac yn bodloni safonau rheoleiddiol. Mae staff gofal yn derbyn hyfforddiant craidd ac arbenigol i sicrhau bod ganddynt wybodaeth dda am anghenion cymorth pobl.

## Gofal a Chymorth

Mae staff ymroddedig ac ymrwymedig yn gweithio'n galed i sicrhau bod anghenion iechyd a llesiant pobl yn cael eu diwallu a'u gwella. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol a pharchus rhwng staff gofal a phobl drwy gydol yr arolygiad. Mae llawer o'r staff wedi gweithio yn y gwasanaeth ers amser maith ac yn deall anghenion pobl yn dda iawn. Dywedodd y rheolwr wrthym fod lefelau staffio wedi bod yn is na'r arfer yn ddiweddar oherwydd y pandemig. Roedd rotâu staff a welsom yn cadarnhau hyn.  Er gwaethaf hyn, mae'r gwasanaeth wedi darparu parhad gofal a chymorth i bobl drwy gyfnod heriol. Dywedodd y rheolwr wrthym fod recriwtio'n parhau a bod dau aelod o staff gofal yn dechrau cyn hir. Mae gan y gwasanaeth gydlynydd gweithgareddau dynodedig a gwelsom ffotograffau o bobl yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cynlluniedig â thema. Cawsom wybod bod gweithgareddau cymunedol yn cynyddu gyda'r risgiau gan COVID-19 bellach yn lleihau. Mae gan y gwasanaeth drafnidiaeth hygyrch a gyrwyr dynodedig i gefnogi hon. Dywedodd perthynas wrthym, *"Mae'r cyfathrebu'n wych, mae'r staff a'r rheolwyr yn anhygoel"* a dywedodd un arall, *"Yn lân ac yn daclus iawn bob tro. Mae'r staff yn dda iawn."*

Yn gyffredinol, mae gan y gwasanaeth gynlluniau cywir a diweddar am sut i ddarparu gofal er mwyn diwallu anghenion pobl. Mae cofnodion gofal personol yn cynnwys amrywiaeth o asesiadau risg a chynlluniau personol. Gwnaethom weld ffeiliau gofal tri unigolyn. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac o safon dda. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth fel arferion gofal dewisol, diddordebau cymdeithasol, dewisiadau bwyd, a hoffterau/casbethau. Mae asesiadau risg yn fanwl ac yn cwmpasu meysydd allweddol megis cwympiadau, deiet/maeth, ymddygiad, a chyfanrwydd y croen. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod rhai cofnodion yn anghyson a bod angen gwella safon y dogfennau. Mae hyn yn ymwneud â sut caiff rhai risgiau eu monitro a'u cofnodi. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym ei fod wrthi'n ystyried sut i wella hyn ac yn gydnabod bod hyn yn broblem gyda'r system cynllunio cymorth ar-lein gyfredol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym hefyd y bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i wella'r materion hyn. Er nad oes angen cymryd camau brys, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cael ei gefnogi drwy gyflogi gweithwyr proffesiynol megis therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion. Gwelsom gofnodion iechyd amlddisgyblaethol trylwyr a manwl ar y system cynllunio cymorth ar-lein. Mae awdurdodiadau o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ar waith i bobl pan fo hynny'n briodol. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel mewn ardaloedd dynodedig sydd wedi'u cloi yn y gwasanaeth. Gwelsom siartiau rhoi meddyginiaeth a oedd bron i gyd wedi eu cwblhau'n briodol. Roedd yna un broblem fach a dywedodd y rheolwr y byddai'n mynd i'r afael â hon.

## Yr Amgylchedd

Mae pobl yn byw mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac yn lân ac sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae gan y gwasanaeth fesurau ymweld a diogelwch llym ar waith er mwyn sicrhau bod pobl yn ddiogel. Mae yna brotocolau rheoli heintiau cadarn ar waith mewn perthynas â COVID-19. Mae'r staff yn defnyddio'r cyfarpar diogelu personol cywir ac mae yna orsafoedd golchi dwylo a chyfarpar diogelu personol drwy'r gwasanaeth. Mae gwastraff clinigol yn cael ei waredu'n gywir. Dywedodd aelod o'r staff domestig wrthym fod yna fesurau glanhau ychwanegol ar waith oherwydd COVID-19. Mae'r rhain yn cynnwys glanhau dwys rheolaidd mewn ardaloedd cymunedol ac ystafelloedd gwely. Yn ddiweddar, mae'r gwasanaeth wedi recriwtio rhagor o staff domestig i sicrhau bod yr adeilad yn parhau i gael ei lanhau i safon uchel. Mae'r ardal golchi dillad wedi'i threfnu'n dda gyda system i mewn ac allan ddiffiniedig ar gyfer dillad glân a brwnt. Mae gan y cartref dîm profiadol o swyddogion cynnal a chadw sydd yn y gwasanaeth yn barhaol. Mae yna system drefnus o archwiliadau iechyd a diogelwch a rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw. Mae profion a gwiriadau diogelwch rheolaidd mewn meysydd megis diogelwch tân, tymereddau dŵr a chyfarpar symudedd wedi'u cofnodi'n dda.

Mae'r gwasanaeth yn darparu amgylchedd da i bobl sydd ag anghenion cymorth cymhleth. Mae gan y gwasanaeth dri llawr amlwg, sy'n creu ardaloedd hunangynwysiedig llai. Mae yna amrywiaeth o ardaloedd cymunol i bobl eu defnyddio, gan alluogi pobl i gymdeithasu neu eu dymuniadau am amser tawel gael eu parchu os ydynt yn dymuno hynny. Gwelwyd pobl sy'n hoffi cymdeithasu'n mwynhau cwmni pobl eraill drwy gydol yr arolygiad. Mae gweithwyr gofal yn adnabod pobl yn dda ac yn gallu cynorthwyo pobl gyda gweithgareddau a meysydd maent yn eu mwynhau. Mae yna ystafell synhwyraidd ddynodedig sydd wedi cael ei chreu'n ddiweddar a chawsom wybod bod pobl yn mwynhau treulio amser ynddi. Mae yna ardaloedd dan reolaeth cod allwedd electronig i bobl dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, sy'n eu cadw'n ddiogel rhag gadael yr adeilad. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli ag eitemau cyfarwydd a ffotograffau o'r teulu er mwyn gwneud i bobl deimlo'n gartrefol yn eu hamgylchedd. Mae yna gegin lân ac ardal storio bwyd fawr iawn.  Y sgôr hylendid bwyd yw pump ar hyn o bryd, sef yr uchaf posib. Gwnaethom siarad â'r prif gogydd, sydd â gwybodaeth dda am baratoi bwyd o ran pobl sydd ag anawsterau llyncu. Gwnaethom hefyd weld detholiad o fwydlenni sy'n cynnwys dewis ac arlwyir ar gyfer deietau unigolion. Mae yna ardd ddiogel fawr y tu allan a chawsom wybod bod cynlluniau i ddiweddaru hon yn fuan.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r tîm rheoli'n ymrwymedig i'r gwasanaeth a'r bobl maent yn eu cefnogi ac yn angerddol amdanynt. Mae yna dîm rheoli sefydledig sy'n teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol. Cafwyd newidiadau diweddar i strwythurau rheoli a bydd y rheolwr cofrestredig bellach yn cael ei leoli'n bennaf yn y gwasanaeth hwn. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod hwn yn newid cadarnhaol a bydd yn rhoi rhagor o amser dynodedig iddi yn y gwasanaeth. Mae'r tîm rheoli'n cynnal cyfathrebu da drwy gyfarfodydd rheolaidd. Mae'r rheolwr yn hynod weladwy yn y gwasanaeth, yn cefnogi'r staff, ac yn adnabod y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn dda iawn. Mae ei swyddfa ger y brif dderbynfa, sy'n hygyrch i bobl, eu perthnasoedd, ac unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n ymweld. Mae'r rheolwr wedi'i gefnogi gan ddirprwy reolwr ac mae sylwadau'r staff yn cynnwys *"yn teimlo fel fy mod yn derbyn cefnogaeth dda ac mae'r rheolwyr yn dda iawn"* ac *"mae'n hawdd mynd at y rheolwyr ac maent wedi rhoi llawer o gymorth i mi"*.Dywedodd gweithwyr gofal wrthym ei fod wedi bod yn gyfnod anodd a heriol oherwydd COVID-19. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi gweithio gyda'r gwasanaeth i gyflwyno cymhelliannau megis darpariaeth prydau bwyd i staff sy'n gweithio oriau hwy. Cynigir talebau i'r staff hefyd er mwyn diolch iddynt am eu hymrwymiad parhaus.

Mae trefniadau ansawdd a llywodraethu yn gadarn ac yn rhoi pobl wrth wraidd y gwasanaeth. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth yn gywir. Mae staff yn elwa o bolisïau a gweithdrefnau clir a hygyrch i'w helpu yn eu rolau. Mae gweithwyr gofal yn wybodus ac yn gwybod y camau gweithredu i'w cymryd mewn perthynas â diogelu a chwythu'r chwiban. Cafodd hyn ei gadarnhau mewn trafodaethau uniongyrchol â staff gofal. Mae yna oruchwyliaeth dda gan yr unigolyn cyfrifol gyda thystiolaeth o archwiliadau chwarterol a chwe misol. Mae'r rhain yn cynnwys ymgynghori â phobl, perthnasoedd, staff ac unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n ymweld ar ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod yr unigolyn cyfrifol yn cysylltu'n rheolaidd ac yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Mae yna broses gwynion wedi'i rheoli'n dda ar waith. Ymddengys fod y gwasanaeth yn gadarn yn ariannol wrth i fuddsoddiad yn y gwasanaeth barhau.

Mae prosesau recriwtio a fetio staff yn gadarn ac yn ddiogel. Gwelsom ddetholiad o ffeiliau staff yn cynnwys tystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gwiriadau hunaniaeth a geirdaon. Mae bron holl waith oruchwylio ac arfarnu staff yn cael ei gwblhau'n rheolaidd ac o fewn amserlenni rheoliadol. Mae'r matrics hyfforddi a welwyd yn dangos bod bron holl ofynion hyfforddiant gorfodol y darparwr yn gyfredol. Mae hyn yn cynnwys rheoli heintiau, diogelu, iechyd a diogelwch, ymwybyddiaeth tân ac ati. Mae hyfforddiant arbenigol hefyd yn cynnwys: anaf i'r ymennydd, diabetes, anhwylder personoliaeth, dementia a chymorth ymddygiadol. Darperir llawer o'r hyfforddiant hwn gan hyfforddwyr mewnol. Mae aelodau staff newydd yn derbyn cyfnod sefydlu trwyadl wedi'i alinio â Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 21 | Gwnaeth arolygiad a gynhaliwyd ar 24 a 25 Chwefror 2022 ganfod, yn dilyn archwiliad o ffeiliau cymorth y darparwr, fod cofnodion camau gweithredu a | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | gymerwyd yn unol â'r risgiau a nodwyd mewn cynllun cymorth yn anghyson ac yn anghyflawn. | |
| 15 | Nid oedd y system cofnodion electronig a ddefnyddir ar hyn o bryd yn dangos tystiolaeth o ofynion cymorth diweddar ym mhob achos. | Cyflawnwyd |
| 16 | Nid oedd y system cofnodion electronig yn dangos tystiolaeth o gyfranogiad pobl yn eu hadolygiadau achos. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad cyhoeddi** 05/04/2022